



**UMPA**  
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**  
**13 Mawrth 2015**  
**Ystafell Bwyllgor**

---

**Presennol:**

Jacob Dafydd Ellis (JDE) – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr  
Miriam Williams (MW) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr  
Will Atkinson (WA) – Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Harriet O’Shea (HO) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMPA  
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UMPA  
Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMPA

**Skype:**

Peter Curran (PC) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

**Yn gwasanaethu:**

Anmarie Evans – Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA  
Eleri Wyn Roberts – Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu UMPA (yn bresennol ar gyfer y Cyflwyniad Marchnata yn unig)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

Dim

**3. Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd 16 Ionawr 2015**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2015 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**Cynigiwyd: GB**

**Eiliwyd: PC**

**4. Busnes y Cadeirydd**

Nododd y Cadeirydd bod y Brifysgol yn dal i wthio i ni gwblhau'r Llawlyfr Gweithredu ar gyfer Campws Mauritius, sydd i agor fis Medi eleni. Esboniodd bod llawer o gwestiynau'n dal i fod heb eu hateb, sydd angen eglurhad cyn y gallwn ni fwrw ymlaen.

**Nodwyd**

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â diffyg pobl yn mynychu cyfarfodydd diweddar, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y ddau Fyfyriwr Ymddiriedolwr i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau.

**Gweithredu - JDE**

## 5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd JG grynodedeb o'r adroddiad a gyflwynwyd eisoes. Roedd hwn yn ymdrin â Masnachu, Adnoddau Dynol, yr ACF, Arolwg y Staff a sylw negyddol yn y wasg.

### **Nodwyd**

## 6. Adroddiad Ariannol

Trafododd CH y cyfrifon a gyflwynwyd o'r blaen ar gyfer Ionawr 2015, ac esboniodd fod y ffigurau'n dangos amrywiaeth negyddol o £12k yn erbyn y gyllideb, oedd yn welliant sylweddol ar gyfrifon Rhagfyr. Perfformiad cryf o ran costau gwerthiant a chysondeb o ran cyflogau misol oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.

### **Nodwyd**

Llongyfarchodd PC bawb ar y gwelliannau, ond rhannodd ei bryderon ynglŷn â'r colledion o £32k ar Ddigwyddiadau. Cytunwyd y dylid sefydlu grŵp tasg/ffocws i gasglu barn myfyrwyr ac ymchwil ychwanegol i adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr. Cytunwyd ar y canlynol fel aelodau o'r grŵp hwn:

Jacob Dafydd Ellis  
Grace Burton  
Will Atkinson  
John Glasby

## 7. Cyllideb

Cyflwynodd CH y Gyllideb ar gyfer 2015/16 a gofynnodd i'r Bwrdd i'w chymeradwyo.

Gofynnodd PC i JG ofyn i'r Brifysgol am sicrwydd mewn ysgrifen y byddem yn cael ein heithrio o daliadau am ddiffyg yn y pensiwn.

### **Gweithredu - JG**

Hysbysodd JDE y Bwrdd na fyddwn yn cytuno ar unrhyw gymorth staff ar gyfer Campws Mauritius oni chaiff cyllid ychwanegol ei ddarparu. Nododd PC bod rhaid pwysleisio hyn i'r Brifysgol, ynghyd â son y gallai'r arian ddod allan o'r Gyllideb ar gyfer Prosiectau; mae angen i lwyddiant ariannol hir-dymor Campws Mauritius gael ei gynnwys yn ein cyllido ar gyfer y dyfodol.

### **Cymeradwyd y Gyllideb**

## 8. Agenda Prevent

Hysbysodd WA y Bwrdd bod deddfwriaeth newydd sy'n rhoi manylion ynglŷn â sut mae disgwyl i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys prifysgolion, atal radicaleiddio, wedi cael ei phasio, a bod Llywodraeth y DU yn gweithio ar y geirio ar gyfer y canllawiau sydd i'w hanfon i sefydliadau. Esboniodd Will y bu diweddariad ers hynny, felly gofynnodd i gael hyn wedi'i gynnwys yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Diolchodd JDE i WA a JG am ddod â hyn at sylw'r Bwrdd, a nododd ei fod yn fater gweithredol i JG ei ddilyn ymhellach.

### **Nodwyd**

## 9. Recriwtio Ymddiriedolwyr Allanol

Esboniodd JDE ei fod eisoes wedi anfon e-bost allan yn gofyn i Ymddiriedolwyr bleidleisio ar ba gwmni allanol y byddent am ei ddefnyddio i'n helpu ni i recriwtio ar gyfer yr Ymddiriedolwr Allanol olaf. Gan fod yr ymateb wedi bod yn isel, methodd y cynnig, felly gofynnodd i'r Ymddiriedolwyr bleidleisio eto.

**Pleidleisiwyd yn unfrydol dros Peridot & Partners  
Gweithredu - JG**

**10. Adolygiad o Rôl Swyddogion**

Cyflwynodd AM dystiolaeth i'r bwrdd a gasglwyd gan Undebau Myfyrwyr eraill parthed Cyfarwyddiaeth y Gangen Fasnachol. Cytunwyd ei bod yn unigryw bod ag un Ymddiriedolwr fel Cyfarwyddwr, ac y dylem ystyried sefydlu o leiaf dau neu dri.

**Cyfredol**

**11. Cyflwyniad Marchnata & Chyfathrebu**

Cyflwynodd Eleri Wyn Roberts ei hun i'r tîm ac esboniodd y gwaith mae'r adran yn ei wneud.

Diolchodd JDE i Eleri a'i thîm am eu holl waith caled a'u cefnogaeth; nododd y bu gwelliannau sylweddol eisoes. Gofynnodd JDE a oedd unrhyw ffordd o wybod pwy sydd ddim yn ymgysylltu â ni, a sut i fynd ati i ymgysylltu â nhw.

**Gweithredu – Eleri Wyn Roberts**

**12. Y diweddaraf ar yr Etholiadau**

Darparodd AM y Bwrdd â rhagwybodaeth ynglŷn â Chanlyniadau Etholiadau, ac esboniodd y byddai'r adroddiad llawn ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr ym Mai. Roedd y canran o'r aelodaeth a bleidleisiodd eleni'n 29.24% o gymharu â 24% llynedd. Ni fu unrhyw broblemau sylweddol, a dim ond dau gŵyn ffurfiol sydd angen sylw.

Diolchodd JDE i AM ar ran y bwrdd, a gofynnodd i'n gwerthfawrogiad gael ei basio ymlaen i'r Cydlynnydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth, Dan Meehan, am ei holl waith caled o ran cyrraedd y targed hwn.

**13. Y diweddaraf ar y Gofrestr Risg**

Darparodd JG y Bwrdd â'r diweddaraf ar y Gofrestr Risg a gofynnodd i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo'r gwelliannau.

**Cytunodd y Bwrdd ar hyn**

**14. Materion yn Codi**

Dim

**15. Unrhyw fusnes arall**

Hysbysodd JG y Bwrdd fod y Brifysgol wedi gofyn iddo gynnal adolygiad o'u gwasanaethau masnachol, a'i fod eisoes wedi cael cymeradwyaeth amodol gan y Cadeirydd parthed treulio amser cyfyngedig ar hyn. Ystyriwyd hyn i fod yn ad-daliad am y gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod ac ar ôl yr ail-strwythuro pan oedd yr UM heb Reolwr Cyllid am 6 mis, pryd darparwyd cymorth gan Bwyllgor Goruchwyliaeth Gyllidol y Brifysgol.

**Nodwyd**

**16. Cyfarfod nesaf.**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **15 Mai am 11am, Canolfan Chwaraeon Cymru, Caerdydd** lle rhoddir gwahoddiad i swyddogion etholedig fel sylwedyddion yn unig. Bydd AE yn cysylltu â'r aelodaeth gyda gwybodaeth bellach.

**Nodwyd**